Cyfarwyddwr Trawsnewid, Strategaeth a Phobl

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Trawsnewid, Strategaeth a Phobl

Lleoliad: Birmingham neu Gaerdydd (Cyfleoedd Gweithio Hybrid a Hyblyg)

CCW (Cyngor Defnyddwyr Cymru) yw'r llais annibynnol ar gyfer defnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr. Un o'n prif flaenoriaethau yw helpu defnyddwyr i ddatrys cwynion yn erbyn cwmnïau neu fanwerthwyr dŵr, a darparu cyngor a chefnogaeth am ddim. Gan na all cwsmeriaid cartrefi yng Nghymru a Lloegr newid cyflenwyr, mae'n gwbl hanfodol bod eu llais yn cael ei glywed yn y modd y mae'r sector yn darparu eu gwasanaethau dŵr ac yn amddiffyn eu hamgylchedd.

Rydyn ni’n chwilio am Gyfarwyddwr Trawsnewid, Strategaeth a Phobl i ymuno â'n tîm Gweithredol. Byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi, datblygu a gweithredu ein cynlluniau strategol wrth ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad yn rhaglenni newid Pobl, Datblygu strategaeth a Pholisi CCW. Byddwch wedi'ch lleoli ym Mirmingham neu yng Nghaerdydd a byddwch yn teithio’n rheolaidd rhwng y ddau leoliad.

Sut byddwch chi ar eich ennill?

Ynghyd ag amrediad cyflog rhwng £70,000 a £75,000, byddwch yn elwa ar drefniadau gweithio hybrid a hyblyg, yn ogystal â phecyn buddion cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gyda chyfraniad cyflogwr o 28.97%
- Gwyliau blynyddol hael yn dechrau ar 25 diwrnod, gan gynyddu 1 diwrnod bob blwyddyn hyd at uchafswm o 30 diwrnod
- Amrywiaeth o opsiynau gweithio hyblyg sy'n addas i'ch anghenion
- Gostyngiadau a chynigion arian yn ôl ar wasanaethau manwerthu a gofal iechyd
- Benthyciadau Tocyn Tymor Teithio i hwyluso eich cymudo
- Benthyciadau Beic i gefnogi ffordd o fyw gynaliadwy
- Mynediad at Raglen Cymorth i Weithwyr a llawer mwy

Beth fyddwch chi'n ei wneud

Byddwch yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, a byddwch yn aelod allweddol o Dîm Gweithredol CCW, sy'n gyfrifol am gefnogi, datblygu a gweithredu cynlluniau strategol CCW. Byddwch yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ym mhob mater sy'n ymwneud â phobl, datblygu strategaeth, a rhaglenni newid CCW.

Eich Cyfrifoldebau

- Cefnogi'r Prif Weithredwr yn y broses newid gyffredinol yn CCW, gan ganolbwyntio ar ddatblygu strategaeth a phrosesau pobl.
- Mireinio, diweddaru a gwella cyfeiriad strategol CCW sy'n sail i'w Rhaglen Waith i'r Dyfodol.
- Chwarae rhan flaenllaw yn y broses ymgynghori ar gyfer datblygu strategaeth CCW, gan gynnwys cyhoeddi'r Rhaglen Waith flynyddol i'r Dyfodol.
- Sicrhau bod polisïau pobl CCW yn bodloni safonau'r Gwasanaeth Sifil, gan ymdrechu i ragori arnyn nhw a dod yn arweinydd sector.
- Darparu fframwaith cydlynol cynhwysfawr ar gyfer prosesau pobl CCW.
- Datblygu Cynnig Gwerth Gweithwyr cymhellol sy'n denu ac yn cadw pobl sy'n dod â thalentau i'r sefydliad.
- Dylunio a gweithredu rhaglen ymgysylltu â gweithwyr CCW i gynnal ymgysylltiad staff.
- Asesu anghenion adnoddau sefydliadol ac arwain y gwaith o ddylunio a gweithredu atebion priodol.
- Gwella gallu CCW i addasu a chyflawni safonau mewn ymateb i amgylchedd allanol sy'n newid, trwy fodelau gweithredol effeithiol.
- Arwain mentrau Pobl a Thrawsnewid.
- Sicrhau bod ein sefydliad yn darparu gwerth am arian drwy feincnodi, sganio'r gorwel, a mabwysiadu arferion gorau, tra'n cynnig syniadau a heriau adeiladol yn rhagweithiol i gydweithwyr Gweithredol.
- Dod â disgyblaeth i brosesau gwneud penderfyniadau strategol, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau busnes.
- Arwain, datblygu ac ysgogi'r tîm Pobl i ddarparu gwasanaeth eithriadol i gwsmeriaid mewnol ac allanol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus yn arferion gwaith CCW, adolygu a mireinio polisïau a phrosesau busnes yn gyson i nodi ffyrdd arloesol o weithio er mwyn gweithredu'n fwy effeithiol a phroffesiynol.
- Briffio Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau'r Bwrdd yn ôl cylch gorchwyl y pwyllgor.
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau pobl a newid ar draws y sector dŵr.
- Sicrhau bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cyflawni dyletswyddau Swyddog Cyfrifeg sy'n gysylltiedig â rheoli pobl.
- Meithrin a chynnal perthynas waith gyda thîm noddi CCW, gan sicrhau bod pob rhwymedigaeth yn cael ei bodloni.
- Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ôl yr angen i gefnogi amcanion CCW.

Am bwy rydyn ni’n chwilio:

Fel Cyfarwyddwr Trawsnewid, Strategaeth a Phobl, bydd gennych chi:

- Y gallu i ddylanwadu a datblygu hyder ar bob lefel sefydliadol.
- Arddull bersonol hyblyg sy'n hwyluso cyfathrebu rhagorol ar bob lefel.
- Sgiliau arweinyddiaeth gyda phrofiad o arwain newid yn y sector cyhoeddus.
- Gallu amlwg i ddylanwadu ar randdeiliaid allanol.
- Profiad ymarferol o arwain ac ysgogi timau, meithrin diwylliant o welliant parhaus ac arwain drwy esiampl.
- Gallu amlwg i gyflwyno rhaglenni cymhleth ledled y sefydliad.
- Profiad o arweinyddiaeth strategol mewn sefydliad cymhleth, gan gynnwys gweithio'n agos gyda Byrddau fel rhan o Uwch Dîm Rheoli i gyflawni amcanion y sefydliad.
- Ymrwymiad i hunanddatblygiad a dysgu parhaus.
- Profiad o ddod â dealltwriaeth allanol i'n sefydliad sy'n annog twf drwy feincnodi.
- Gwybodaeth am raglenni dylunio sefydliad a boddhad gweithwyr, gyda gallu amlwg i fesur cynnydd a sicrhau gwelliant.
- Sgiliau datrys problemau gyda ffocws ar atebion arloesol.
- Tystiolaeth o gynllunio da a galluoedd rheoli prosiectau.
- Y gallu i feithrin perthynas waith gyda rhanddeiliaid ar bob lefel.
- Sensitifrwydd a disgresiwn wrth ymdrin â materion cyfrinachol.
- Profiad o reoli risg.
- Hyblygrwydd i weithio y tu allan i oriau arferol a theithio yn ôl yr angen, gan gynnwys aros dros nos o bosibl.

Ein Gwerthoedd

Rydyn ni’n disgwyl ac yn cefnogi holl gydweithwyr CCW i ymgorffori a dathlu gwerthoedd CCW trwy egni cadarnhaol, parch at bawb, ysbryd arloesol, cyflawni ein haddewidion a bod fel un.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn CCW, rydyn ni’n diffinio ein hamrywiaeth fel bod â phobl sydd ag amrywiaeth eang o nodweddion, cefndiroedd a phrofiadau. Mae bod yn gynhwysol yn golygu ein bod i gyd yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu ein syniadau a'n safbwyntiau oherwydd bod ein gwahaniaethau yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae pob aelod o'n sefydliad yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei dderbyn a'i werthfawrogi gyda chyfle cyfartal i dyfu a llwyddo yn y gwaith.

Rydyn ni’n *gyflogwr Hyderus o ran Anabledd*, gallwch ddarganfod mwy am ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yma.

Os yw hyn yn swnio fel y cam nesaf yn eich gyrfa yna cliciwch ar 'Ymgeisio Nawr/Apply Now' a bydd aelod o'n tîm yn cysylltu o fewn dim!